RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 49/2017
DYDDIAD CYHOEDDI: 22/08/2017

# Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant

# Adolygiad o'r Ail Flwyddyn

## Crynodeb Gweithredol

### 1 Nodau a methodoleg yr adolygiad

1.1 Comisiynodd Amgueddfa Cymru - National Museum Wales ac Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn cyflwyno canfyddiadau adolygiad o ail flwyddyn cyfnod peilot y rhaglen Cyfuno. Nod rhaglen Cyfuno Llywodraeth Cymru yw annog a grymuso pobl sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf di-fraint Cymru i gymryd rhan yn frwd yn y celfyddydau, ac mewn diwylliant a threftadaeth ar lefel y gymuned leol. Rhan hanfodol o'r rhaglen oedd sefydlu Partneriaethau Cyfuno i gynllunio gweithgarwch a'i roi ar waith ar lefel ardaloedd lleol.

1.2 Prif nod yr adolygiad hwn oedd cael barn ystod eang o randdeiliaid diwylliannol sy'n cymryd rhan mewn Partneriaethau Cyfuno er mwyn asesu effaith y rhaglen ar eu sefydliadau hwy eu hunain. Bydd canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cyfrannu at y sail dystiolaeth ar gyfer diwylliant a threchu tlodi yng Nghymru ac yn ei dro bydd yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'r rhaglen Cyfuno.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ganfyddiadau arolwg ar-lein, a anfonwyd at sampl o randdeiliaid sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn Partneriaethau Cyfuno, a chyfweliadau ansoddol gyda rhanddeiliaid diwylliannol.

1.4 Yn y paragraffau isod, crynhowyd prif ganfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid a'r cyfweliadau lled-strwythuredig.

## 2. Prif ganfyddiadau

**Dealltwriaeth o'r dull Cyfuno**

2.1 Mae canfyddiadau'r ymchwil yn dangos dealltwriaeth gref o nodau cyffredinol y rhaglen Cyfuno. Roedd y sawl y cyfwelwyd â hwy'n eithriadol o gadarnhaol am nod Cyfuno, sef helpu i drechu tlodi mewn rhai o'r cymunedau mwyaf di-fraint yng Nghymru drwy gyfrwng ymyriadau diwylliannol. Roedd y rhan fwyaf yn meddwl bod gan sefydliadau diwylliannol gyfrifoldeb cymdeithasol i gyfrannu at y nodau hyn.

**Cymhellion dros gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno**

2.2 Y prif gymhellion dros gymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno oedd ehangu mynediad a chyfranogaeth mewn gweithgareddau diwylliannol a'r awydd i wella galluoedd pobl, er enghraifft, drwy feithrin eu sgiliau a'u hyder a'u helpu i ennill cymwysterau. Roedd rhai o'r ymatebwyr i'r arolwg yn cael eu cymell gan y cyfleoedd a gynigiai Cyfuno i weithio mewn cymunedau newydd a chyda grwpiau newydd o bobl. Teimlai'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil fod y Partneriaethau Cyfuno'n cynnig cyfleoedd i bobl rwydweithio gydag ystod o randdeiliaid, a myfyrio ar yr arferion gorau. Roeddent yn cynnig fforwm i gryfhau cydberthnasau sydd ganddynt eisoes ac i feithrin cysylltiadau newydd â sefydliadau diwylliannol eraill, awdurdodau lleol, ac asiantaethau yn y gymuned leol sy'n gweithio mewn cymunedau di-fraint.

**Sylwadau am fanteision Partneriaethau Cyfuno**

2.3 Yn ôl y rhai y cyfwelwyd a hwy, rhai o'r manteision oedd datblygu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid, gwella'u proffil proffesiynol, targedu cynulleidfaoedd newydd mewn cymunedau di-fraint ac ymgysylltu â hwy. Yn ogystal â hynny, roedd y partneriaethau wedi'u galluogi i ddeall sefydliadau'n well ac wedi cynnig cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ar drywydd cydamcanion a phrosiectau newydd. Roedd rhai o'r sawl y cyfwelwyd a hwy hefyd wedi llwyddo i ddenu cyllid ac adnoddau ychwanegol.

2.4 Roedd y rhan fwyaf o'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil yn teimlo, yn sgil dull y Partneriaeth Cyfuno, fod sefydliadau diwylliannol yn targedu gweithgareddau'n fwy effeithiol at bobl sy'n wynebu tlodi. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo hefyd fod eu sefydliad yn cydweithio mwy wrth gydgynllunio ymyriadau diwylliannol gydag unigolion a grwpiau o gymunedau di-fraint, ac yn cydweithio'n fwy effeithiol gyda sefydliadau diwylliannol eraill ac asiantaethau yn y gymuned leol sy'n gweithio gyda'r cymunedau hynny. Teimlai'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hefyd fod unigolion sy'n wynebu tlodi yn eu cymunedau'n manteisio mwy ar weithgareddau diwylliannol yn sgil y Partneriaethau Cyfuno. At hynny, teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr mai un o ganlyniadau cymryd rhan mewn Partneriaeth Cyfuno oedd bod eu sefydliad yn dechrau deall yn well y rhan y gall diwylliant ei chwarae'n trechu tlodi.

2.5 Credai'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil mai'r prif fanteision i unigolion oedd eu bod wedi cael profiadau a chyfleoedd newydd. Y farn oedd bod partneriaethau'n helpu llawer o unigolion i fanteisio ar adnoddau diwylliannol am y tro cyntaf. Pwynt arall a gododd yn gryf oedd y farn bod awdurdodau lleol yn meddwl bod awdurdodau lleol yn meddwl am wahanol ffyrdd o wireddu amcanion yn sgil gwaith sefydliadau diwylliannol mewn partneriaethau. Roeddent wedi dysgu am wahanol ffyrdd o ymgysylltu â phobl, ac roedd Cyfuno'n cynnig darpariaeth ddiwylliannol fwy mentrus a mwy deniadol. Yn sgil hynny, roedd yn helpu i chwalu rhai o'r rhwystrau a'r camganfyddiadau am ddiwylliant o fewn awdurdodau lleol.

2.6 Roedd Partneriaethau Cyfuno hefyd yn cael eu gweld yn chwalu rhai o'r rhwystrau a'r camganfyddiadau o fewn awdurdodau lleol Roedd y rhai y cyfwelwyd â hwy'n gyffredinol gadarnhaol am y cyfleoedd i rwydweithio, ac fe soniodd rhai fod y partneriaethau'n cynnig fforymau sy'n cefnogi cydweithio, gan osgoi dyblygu drwy gronni neu rannu adnoddau.

**Heriau cymryd rhan yn y rhaglen Cyfuno**

2.7 Mae'r adolygiad hwn hefyd yn sôn am nifer o heriau sy'n codi yn sgil dull y Partneriaethau Cyfuno. Yr heriau y cyfeiriwyd atynt amlaf o ran cymryd rhan mewn partneriaeth oedd casglu data monitro a gwerthuso ac ymgysylltu â phobl sy'n wynebu tlodi drwy gyfrwng gweithgareddau diwylliannol. Soniodd y rhai y cyfwelwyd a hwy hefyd am anawsterau cyfathrebu wrth geisio rhannu gwybodaeth yn effeithiol, er mwyn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac osgoi dyblygu gweithgareddau. Lle nad oedd aelod o staff Corff Cyflawni Arweiniol[1] wedi'i ddynodi'n glir i fod yn gyfrifol am gydlynu'r bartneriaeth, dywedodd rhai o'r sawl y cyfwelwyd â hwy fod anawsterau'n codi o ran ymuno â rhwydwaith.

2.8 Her arall oedd prinder capasiti ac adnoddau i ddarparu gweithgareddau. Yr anawsterau y canolbwyntiwyd arnynt fwyaf oedd bod gofyn i staff gynllunio a darparu gweithgareddau ar ben eu cyfrifoldebau beunyddiol ac o fewn amserlen adrodd partneriaethau.

2.9 Yn ogystal â hynny, un o'r heriau y cyfeiriodd llawer o'r rhai y cyfwelwyd â hwy ati oedd nad oedd digon o amser i sefydlu cysylltiadau a meithrin perthynas rhwng rhanddeiliaid cyn gallu dechrau cydweithio ar brosiectau. Roedd cysylltiad rhwng hyn ag amserlen adrodd byr y rhaglen Cyfuno.

2.10 Roedd yr ansicrwydd oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, toriadau i gyllidebau yn sgil hynny ar draws y sector diwylliant a threftadaeth a'r rhwystrau yr oedd hyn wedi'u hachosi o ran cynllunio strategol ar gyfer y tymor hwy hefyd yn ffactor heriol a bwysleisiwyd yn y cyfweliadau.

---

[1] Y Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer pob Partneriaeth Cyfuno yw'r corff arweiniol sy'n gyffredinol gyfrifol am oruchwylio gwaith y bartneriaeth honno.

**Ffactorau llwyddiant hollbwysig**

2.11 Yn ystod yr adolygiad cyfeiriwyd at nifer o ffactorau yn yr atebion i'r arolwg ac yn y cyfweliadau a oedd yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant Cyfuno yn y dyfodol. Dywedwyd mai'r ffactor mwyaf pwysig er mwyn sicrhau llwyddiant yn y dyfodol oedd bod angen i Bartneriaethau Cyfuno gynnwys amrywiaeth eang o sefydliadau. Ffactorau eraill y cyfeiriodd ymatebwyr atynt oedd:

- cydweithio a datblygu mentrau gan ddefnyddio'r dull cydgynhyrchiol;
- mesur canlyniadau a dysgu yn sgil tystiolaeth a'r arferion gorau;
- mwy o gyllid ar gyfer partneriaethau;
- arweinyddiaeth gref ar gyfer y partneriaethau;
- cyfathrebu effeithiol rhwng rhanddeiliaid; a
- sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol yn bwrw gwreiddiau mewn cymunedau di-fraint er mwyn creu perchnogaeth a newid sy'n para.

2.12 Un thema bwysig arall a godwyd gan sawl un a gymerodd ran yn yr ymchwil oedd ansawdd y gweithgareddau diwylliannol a gynigid; roedd llawer yn pwysleisio'n gryf, er mwyn sicrhau ymyriadau arloesol o safon, fod angen sicrhau bod unigolyn sydd â chefndir ym maes y celfyddydau ac sy'n deall y sector diwylliannol yn iawn yn rhan greiddiol o'r partneriaethau.

## 3. Casgliadau

3.1 Drwyddi draw, roedd barn y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil am Bartneriaethau Cyfuno yn gadarnhaol. Roeddent yn credu bod manteision Partneriaethau Cyfuno gan mwyaf yn gwrthbwyso unrhyw heriau. Rhai o'r prif fanteision oedd y cyfleoedd yr oedd partneriaethau'n eu cynnig i feithrin perthynas rhwng rhanddeiliaid, gan helpu i gryfhau proffil sefydliadau diwylliannol a dangos y cyfraniad y gallant ei wneud at drechu tlodi. Yn ogystal â hynny, yn sgil y dull partneriaeth, roedd sefydliadau diwylliannol yn gwneud mwy o ymdrech i dargedu grwpiau newydd mewn cymunedau di-fraint ac i ymgysylltu â hwy. Serch hynny, nodwyd hefyd bod lle i wella mewn ambell faes. Awgrymwyd mai un maes lle y gellid gwella oedd rhoi mwy o amser i sefydlu a meithrin y cysylltiadau rhwng rhanddeiliaid a helpu i hwyluso dulliau cydgynhyrchiol rhwng rhanddeiliaid a chyfranogwyr. Roedd cysylltiad rhwng hyn hefyd a'r angen i ystyried pa mor gynaliadwy oedd gweithgareddau drwy gymell partneriaethau a sicrhau eu bod yn bwrw gwreiddiau. Maes arall y gellid ei wella, yn ôl yr adolygiad, oedd cyfathrebu. Pwysleisiodd llawer o'r rheini a gymerodd ran yn yr ymchwil sut, er mwyn sicrhau profiad o ansawdd i'r cyfranogwyr, fod angen i unigolion sydd â'r lefel briodol o ddealltwriaeth, o ran arbenigedd diwylliannol a gwybodaeth am y sector diwylliannol, chwarae rhan allweddol wrth lunio cyfeiriad partneriaethau.

Mulready, K., (2017). *Y Rhaglen Cyfuno: Creu Cyfleoedd drwy Ddiwylliant Adolygiad o'r Ail Flwyddyn* Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad YGLI...

Ar gael yn: http://gov.wales/statistics-and-research/research-fusion-creating-opportunities-through-culture-programme/?lang=cy

Safbwyntiau yr ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Kathleen Mulready
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: kathleen.mulready001@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78859-099-0